MEWNWELEDIADAU DATA

Rhifyn: 3/2018CGA

Nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith cofrestredig yng Nghymru

www.cga.cymru
@ewc_cga

CGA yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Mae gofyn i ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith gofrestru â CGA ers 1 Ebrill 2017. Dyma'r data cyntaf i'w gyhoeddi gan CGA am y grŵp hwn ac mae'n cynnwys oedran, rhyw a chyflogaeth. Byddwn yn adrodd ar nodweddion eraill fel cymwysterau, iaith Gymraeg, grŵp ethnig ac anabledd yn y dyfodol, gan fod ein cofrestreion yn poblogi eu cofnodion ar y Gofrestr. Mae'r data a ddangosir ar 1 Mawrth 2018.

Nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith

Mae ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith cofrestredig yn gweithio fel hyfforddwyr, aseswyr, tiwtoriaid, neu mewn rolau rheoli a sicrhau ansawdd. Nid oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol i fod yn gymwys i'w cofrestru yn y categori hwn.

Rhaid i ymarferydd dysgu seiliedig ar waith fod wedi cofrestru â CGA os ydynt yn darparu gwasanaethau dysgu seiliedig ar waith ar gyfer darparwr dysgu seiliedig ar waith, neu ar ei ran, lle mae'r darparwr wedi'i gontractio i Lywodraeth Cymru (mae hyn hefyd yn berthnasol i bob is-gontractwyr ac aelodau'r consortiwm sy'n darparu hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru).

	Mawrth 2018
Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith	2,644

Mae ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn ffurfio 3.3% o'r holl gofrestreion ar Gofrestr Ymarferwyr Addysg CGA.

Oedran

Mae proffil oedran ymarferwyr dysgu yn y gwaith cofrestredig yn hŷn na phroffil oedran yr holl gofrestreion.

Mae 11.0% o dan 30 oed, tra bod 34.9% yn 50 oed a throsodd. Mewn cymhariaeth, mae 19.7% o'r holl unigolion cofrestredig yn 29 neu'n iau ac mae 28% yn 50 oed a throsodd.

	Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith	Pob cofrestrai
29 neu'n iau	290	15,850
30 i 39	705	20,273
40 i 49	727	21,671
50 i 59	652	17,110
60 neu'n hŷn	270	5,377
Cyfanswm	2,644	80,281



Rhywedd



Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith | Pob cofrestrai

Mae 65.3% o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith cofrestredig yn ferched. Mae cyfran yr ymarferwyr gwrywaidd yn y sector hwn (34.7%) yn uwch o'i gymharu â phroffil cyffredinol y gofrestr (29.6%).

	Benywaidd	Gwrywaidd	Cyfanswm
Ymarferwr dysgu seiliedig ar waith	1,726	918	2,644
Pob cofrestrai	63,349	16,932	80,281

Cyflogaeth



Mae'r mwyafrif o ymarferwyr dysgu yn y gwaith (68.3%) yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr hyfforddiant preifat neu drydydd sector (efallai y bydd rhai ohonynt yn gysylltiedig â sefydliad AB ond maent yn gwmnïau cofrestredig yn eu pen eu hunain), a 54.2% o'r rheini'n cael eu cyflogi gan is-adran -montractwr neu gonsortiwm.

Mae 20.5% o ymarferwyr dysgu yn y gwaith yn cael eu cyflogi gan sefydliadau AB. Ar gyfer 50.8% o'r rhain, mae'r sefydliad AB yn is-gontractwr neu'n aelod o'r consortiwm.

Nid yw 11.2% o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith cofrestredig ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau dysgu seiliedig ar waith fel eu prif gyflogaeth.

	Nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith
Darparwyr hyfforddiant preifat neu'r trydydd sector	**1,806**
Prif gontractwr	826
Is-gontractwr neu aelod o'r consortiwm	980
Sefydliad AB	**540**
Prif gontractwr	265
Is-gontractwr neu aelod o'r consortiwm	275
Arall	**298**

Nodiadau

Daw'r data yn y crynodeb hwn o Gofrestr Addysgwyr Addysg CGA.

Cofnodir niferoedd cofrestredig fel rhai gwirioneddol yn hytrach na chyfwerth ag amser llawn ac maent wedi'u seilio ar gategori cofrestru sylfaenol a chyflogaeth.

Diffinnir gwasanaethau ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith fel a ganlyn:
(a) Cydlynu a chyflwyno dysgu yn y gwaith;
(b) Asesiad o wybodaeth a sgiliau person sy'n derbyn dysgu seiliedig ar waith (neu i gael ei dderbyn).

Efallai na fydd canrannau'n gyfanswm 100 oherwydd talgrynnu.

Diogelu data - gweler ein hysbysiad preifatrwydd - ar gael yn www.cga.cymru

Cysylltwch â ni

Ymholiadau i'r wasg – e-bostiwch cyfryngau@cga.cymru neu ffoniwch 029 2046 0099

Ymholiadau eraill / adborth – e-bostiwch ystadegau@cga.cymru neu ffoniwch 029 2046 0099